Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Panteg**
**Oxford Street**
**Griffithstown**
**Pont-y-pŵl**
**Torfaen**
**NP4 5HP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Panteg wedi'i lleoli ar ddau safle ym mhentrefi Griffithstown a Sebastopol, ger Pontypŵl, yn awdurdod lleol Torfaen. Mae 195 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, rhwng pedair a naw oed. Daw 22 o blant i'r dosbarth meithrin yn y boreau'n unig.

Mae bron pob un disgybl o darddiad Gwyn Prydeinig, a Chymraeg yw mamiaith ychydig iawn ohonynt. Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 12% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Nid yw'r ysgol wedi ei harolygu o'r blaen. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers sefydlu'r ysgol ym Medi 2010.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Panteg yn 2014-2015 yw £3,554. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Nhorfaen yw £14,422 a'r isafswm yw £2,940. Mae Ysgol Panteg yn safle'r 14eg allan o'r 29 ysgol gynradd yn Nhorfaen o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd pendant;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol ar gyfer disgyblion;
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn rhagorol;
- yr addysgu yn effeithiol ac ysgogol;
- yr ysgol yn sicrhau datblygiad ysbrydol, personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus;
- y defnydd o staff cymorth yn gryfder yn yr ysgol;
- yr ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal;
- yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n greadigol; a bod
- partneriaethau buddiol iawn gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn cyflwyno gwelliannau trwy systemau a mentrau effeithiol ac yn rheoli newidiadau â chreadigrwydd;
- y llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn dechrau gweithio'n strategol gyda'r pennaeth;
- systemau cadarn ar waith i godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach;
- yr hunan arfarnu yn fanwl gywir a grymus ac wedi arwain at welliannau buddiol dros amser;
- yr uwch dîm rheoli yn defnyddio cyllid yn synhwyrol ac effeithlon; a bod
- cynllun datblygu presennol yr ysgol yn cysylltu'n dda â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

A2 Gwella manylder cynlluniau gwersi i sicrhau dilyniant yn y dysgu

A3 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd llwyddiannus o'u medrau darllen ar draws y cwricwlwm ac mae eu safonau siarad a gwrando yn effeithiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfathrebu i safon uchel yn y Gymraeg. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac maent yn ymateb yn hyderus i'w hathrawon a'u cyfoedion wrth drafod eu gwaith mewn grwpiau a pharau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad ag oedolion a phlant eraill yn ddeallus.

Mae medrau darllen ac ysgrifennu bron pob un disgybl yn datblygu'n effeithiol ac yn unol â'u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf ohonynt ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Gwnânt ddefnydd da o gymalau enghreifftiol i drafod llyfrau ac maent yn darllen llyfrau heriol yn gyson gywir â deallusrwydd synhwyrol. Maent yn rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori a mynegi barn berthnasol am gynnwys y stori. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau ail-ddweud storïau ac yn galw nifer o fanylion i gof â chywirdeb manwl.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Gall y rhan fwyaf ohonynt ateb cwestiynau'n synhwyrol am y gwahanol fathau o ysgrifennu y maent yn eu darllen, fel perswâd, adroddiad a darnau ffuglen. Maent yn deall pwrpas llyfrau ffeithiol ac yn rhannu eu barn yn llwyddiannus ar lafar ac yn ysgrifenedig am faterion hanesyddol a lleol. Mae ychydig o ddisgyblion yn ystyried a thrafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen yn huawdl iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson, llythyr personol a phamffledi. Maent yn ymestyn eu hysgrifennu mewn dulliau diddorol ac estynedig. Gwnânt ddefnydd o'u syniadau eu hunain yn gyson wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm ar gyfer dibenion amrywiol a chynulleidfaoedd gwahanol. Fodd bynnag, mae cynnydd y disgyblion yn ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn anwastad ar draws yr ysgol.

Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion meithrin gyfrif, trefnu a didoli rhifau i 10 yn gywir. Wrth symud drwy'r Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod siapiau, deall pwrpas arian ac yn defnyddio amser yn effeithiol ac ymarferol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn casglu, dadansoddi a chraffu gwybodaeth ar ffurf graff yn effeithiol. Maent yn pwyso gwrthrychau bob dydd yn gywir ac yn darllen tymheredd yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod a defnyddio eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol wrth ddadansoddi a datrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn y cyd-destun cywir. Gall lawer ohonynt adnabod, defnyddio a gwneud patrymau ailadroddus yn hyderus. Maent yn defnyddio ffracsiynau syml i ddisgrifio rhannau darn cyfan a defnyddio amrywiaeth o ddulliau pen ac ysgrifenedig i gyfrifo atebion yn synhwyrol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol ar sut i gyflwyno gwahanol ddata at bwrpas penodol.

Mae safonau rhifedd ar draws cyfnod allweddol 2 yn gyson dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth fathemategol ar draws y cwricwlwm yn annibynnol. Maent yn ystyried arweiniad oedolyn wrth iddynt ddewis eu strategaethau eu hunain i ddatrys problemau'n bwrpasol.

Mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn llwyddiannus iawn yn y dosbarthiadau a thu allan i wersi. Maent yn gwneud cynnydd sylweddol o ran ennill medrau Cymraeg. Mae hyn yn gryfder ar draws yr ysgol.

Yn 2013 a 2014, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar y deilliant 6 uwch na'r disgwyl, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol yn 2013 a 2014.

Nid oes asesiadau ar gael ar gyfer cyfnod allweddol 2 am fod disgyblion hynaf yr ysgol heb gyrraedd diwedd y cyfnod allweddol. O ganlyniad, nid yw'n bosibl adrodd ar berfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach, ac yn cyflawni'n dda o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae bron pob un ohonynt yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a'u cyfoedion. Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion ac mae hyn yn amlwg ar draws yr ysgol trwy waith y pwyllgor eco a thrwy gysylltiadau â'r gymuned leol.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn trefnu gweithgareddau i gefnogi elusennau. Mae eu penderfyniadau'n synhwyrol ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda staff a chyfeillion yr ysgol i greu gwelliannau i gyfarpar ac amgylchfyd y ddau safle.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol. Mae cyfradd bresenoldeb disgyblion yn gyson agos i 95%, ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu effeithiol, sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae'r gweithgareddau yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm ac mae'r cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio tymor byr yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant yn y dysgu o ddydd i ddydd.

Mae'r profiadau dysgu yn yr ardaloedd awyr agored ac yn yr adeilad yn darparu gweithgareddau buddiol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu. Mae gwaith cartref rheolaidd yn adeiladu'n gadarn ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth. Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu cyfoethogi ymhellach trwy ymweliadau perthnasol a thrwy derbyn ymwelwyr i'r ysgol fel awduron a beirdd.

Mae llawer o nodweddion yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn rhagorol. Er enghraifft, mae cyfleoedd symbylus i ddatblygu ymhellach afael disgyblion ar eirfa a phatrymau iaith drwy gân. Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol iawn ar safonau gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddysgu am Gymru, ei phobl a'i thraddodiadau. Mae'r disgyblion yn astudio gwaith nifer o arlunwyr ac awduron ac yn cael ymweliadau a gweithdai diddorol. Maent yn derbyn profiadau gwerthfawr i gyfoethogi eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru trwy arddangosfeydd ysgogol ar Gymru trwy'r oesoedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm ac mae cysylltiad effeithiol ganddi ag ysgol yn Simbabwe. Mae'r pwyllgor eco yn cyfrannu tuag at welliannau effeithiol mewn ailgylchu papur a phlastig yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu cadarn yn sicrhau bod disgyblion yn dangos diddordeb a mwynhad yn eu dysgu. Mae perthynas glos rhwng y staff a'r disgyblion. Mae ethos hapus ac mae ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, gyda phob un o'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol. Mae'r staff yn ymateb â diddordeb i atebion disgyblion ac yn rhoi anogaeth effeithiol iddynt. Mae cymorthyddion yn cyfoethogi profiadau grwpiau ac unigolion yn gyson dda ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r cyflwyniadau a chyflymdra'r gwersi yn heriol ac yn cael eu hamseru'n effeithiol. Mae gwybodaeth bynciol gadarn, holi medrus ac amrywiaeth o ddulliau addysgu yn ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r holl staff yn cynnig modelau iaith da. Mae cyfleoedd cyson ar gael i'r disgyblion i ymestyn eu gwaith, eu gwybodaeth a'u hannibyniaeth wrth ddysgu. Mae ystyriaeth briodol i lefelau gallu gwahanol ymhob dosbarth i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'u targedau gwella. Mae targedau gweladwy yn y dosbarthiadau a sylwadau'r athrawon wrth farcio yn arwain disgyblion at y camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r marcio yn drylwyr ac yn gyson. Mae'r broses o lefelu, cymedroli a safoni gwaith disgyblion dros amser yn ddibynadwy.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant trwy adroddiadau manwl a chyfarfodydd cyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal. Mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ei chysylltiadau agos â'r gymuned. Ceir trefniadau buddiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ac i gynrychioli'r ysgol yn y gymuned a thu hwnt. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad disgyblion ac mae staff yn hyrwyddo'r rhain yn gyson ym mhob dosbarth, yn ogystal â hyrwyddo parch a sensitifrwydd tuag at bobl eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff gwybodaeth o arsylwadau a phrofion ystafell ddosbarth ei dadansoddi'n ofalus. Mae'r staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cynllunio'n briodol i baratoi rhaglenni cymorth pwrpasol. Gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio'n llawn ar holl feysydd y cwricwlwm.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sydd ag awyrgylch teuluol ac mae'n sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac mae'n gryfder.

Mae'r ysgol yn darparu cyfle cyfartal ac mae'n gwbl gynhwysol. Mae'r ethos cadarnhaol yn annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a dangos parch atynt, beth bynnag fo'u rhyw neu'u hil.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithlon o'r amgylchedd ffisegol a defnyddir adeiladau'r ysgol ar y ddau safle'n greadigol. Mae'r adnoddau chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn effeithiol trwy ddefnyddio gweithgareddau difyr a chyffrous.

Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae ystod eang o adnoddau defnyddiol yn amlwg ym mhob ystafell ddosbarth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio'n effeithiol ar gyflawniad a chynnydd disgyblion unigol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac maent yn trafod a chynllunio ar y cyd. Maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r pennaeth a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus. Mae hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth, yn codi safonau ac yn creu cyfeiriad strategol pendant.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel llythrennedd a rhifedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol a chefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad, cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Er hynny, nid ydynt yn cymryd rhan llawn ym mhrosesau strategol yr ysgol ar hyn o bryd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n manteisio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys data ar berfformiad disgyblion, deilliannau arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r pennaeth yn cynnwys safbwyntiau rhieni yn rheolaidd ac mae llais y disgybl yn holl bwysig gan yr ysgol.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn dadansoddi data cyrhaeddiad y disgyblion yn fanwl ac yn defnyddio'r canfyddiadau'n ystyrlon i greu gwelliannau. Defnyddir y wybodaeth i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn effeithiol. Mae'r adroddiad yn rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion. Mae'r adroddiad yn cynnig asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yn deillio o'r hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir a manwl yn y cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn fanwl, ac yn cynnwys amserlen, trefniadau monitro, cyfrifoldebau staff ac adolygiad cynnydd. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith disgyblion, er enghraifft mewn TGCh a llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion. Mae perthynas gref gyda rhieni a chyfeillion, sy'n

cyfrannu arian sylweddol at brynu adnoddau ac offer er budd y disgyblion. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni.

Mae partneriaeth lewyrchus yn bodoli gydag ysgolion cyfagos trwy gydweithio pwrpasol, a rhannu arbenigedd ac arfer dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safon gwaith disgyblion, ac ar ddatblygiad proffesiynol staff.

Mae partneriaeth gadarn gyda'r gymuned leol. Mae cyfraniad disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol. Mae'r cydweithrediad gyda siop leol i gynnal sioe ffasiwn yn ddiweddar wedi bod yn gyfle arbennig i ddysgu sgiliau newydd ac ehangu profiadau dysgu.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r cylch meithrin sy'n cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae trefniadau pontio effeithiol ac ymweliadau yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynllunio a monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol ac mae'r holl wariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol. Mae'r adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Mae defnydd effeithiol o'r ardal tu allan yn hybu profiadau dysgu ac yn ysgogi disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae athrawon a chymorthyddion cymwys a brwdfrydig yn cyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd staff yn synhwyrol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon.

Mae'r pennaeth a staff yr ysgol yn rhan o nifer o rwydweithiau dysgu sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i staff ddatblygu eu medrau a'u datblygiad broffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau iaith, celf a cherddoriaeth y disgyblion.

Mae gan yr ysgol system rheoli perfformiad effeithiol sy'n cefnogi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff. Mae pob hyfforddiant wedi'i gysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd ar waith i dargedu disgyblion anghenus.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6782327 - Ysgol Panteg**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 185 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 19 | 32 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 89.5 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 94.7 | 96.9 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 31.6 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 94.7 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 31.6 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 32 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 94.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 26.3 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Nid oes asesiadau ar gael ar gyfer cyfnod allweddol 2 am fod disgyblion hynaf yr ysgol heb gyrraedd diwedd y cyfnod allweddol.  O ganlyniad, nid yw'n bosibl adrodd ar berfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 59 | 58 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 59 | 41 | 18 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 69% | 31% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 59 | 59 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 59 | 56 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 59 | 53 | 6 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 59 | 57 | 2 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 59 | 56 | 3 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 59 | 58 | 1 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 59 | 54 | 5 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 59 | 48 | 11 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 81% | 19% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 59 | 40 | 19 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 68% | 32% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 59 | 53 | 6 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 18 | 14 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 18 | 15 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 14 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 18 | 13 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 18 | 7 | 9 | 1 | 1 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 39% | 50% | 6% | 6% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 18 | 13 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 12 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 8 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 18 | 11 | 5 | 1 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 28% | 6% | 6% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 18 | 12 | 3 | 3 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 17% | 17% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 18 | 13 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 72% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 7 | 6 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 18 | 9 | 8 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 18 | 11<br>61% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 17 | 9<br>53% | 4<br>24% | 2<br>12% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 18 | 11<br>61% | 4<br>22% | 2<br>11% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 16 | 8<br>50% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 9<br>50% | 6<br>33% | 2<br>11% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 14<br>78% | 2<br>11% | 1<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Melfyn Hopkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhodri Harries | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.